**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar Dydd Mercher, 6 Tachwedd 2019.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarlledaid o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Bryan Owen, Dafydd Roberts a Robin Williams |
| **Ymddiheuriadau:** | Dim |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr R G Parry OBE, FRAgS (ar gyfer cais 7.1), Richard Dew (Aelod Portffolio Cyllid). |

1:00 y. p. tan 1:30 y. p.

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Hydref, 2019 fel rhai cywir.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIADAU SAFLE** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Cadarnhawyd fel rhai cywir, cofnodion yr ymweliadau safleoedd cynllunio a gynhaliwyd ar 16 Hydref, 2019.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu trafod yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
| PENDERFYNIAD | **7.1 OP/2019/5 - Cais amlinellol ar gyfer dymchwel yr adeiladau presennol ynghyd â chodi 52 annedd fforddiadwy gyda datblygiadau cysylltiedig ynghyd â manylion llawn am y fynedfa i gerbydau ar dir ger Huws Grey, Stryd y Bont, Llangefni**<br><br>**Penderfynwyd gohirio'r drafodaeth ar y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac am y rheswm a roddwyd.**<br><br>**7.2 FPL/2019/226 - Cais llawn ar gyfer codi 3 chaban gwyliau, creu trac mynediad newydd, diwygio mynedfa bresennol ynghyd â gosod gwaith paced ar gyfer trin carthffosiaeth ar dir yn Fronwen, Niwbwrch.**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog oherwydd tybir ei fod yn dderbyniol dan ddarpariaethau Polisi TWR3. (Ni wnaeth y Cynghorydd Bryan Owen bleidleisio ar y mater).**<br><br>***Yn unol â'r gofynion yng Nghyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig i'r cyfarfod nesaf er mwyn i'r Swyddogion gael cyfle i baratoi adroddiad ar y rheswm a roddwyd dros gymeradwyo'r cais.*** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu trafod yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu trafod yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu trafod yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu trafod yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 OP/2019/14 - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl faterion wedi cadw'n ôl ar dir ger Gelli Aur, Brynsiencyn**<br><br>**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog gyda'r amodau sydd wedi eu cynnwys ynddo ac ar yr amod hefyd na cheir unrhyw sylwadau sy'n codi unrhyw faterion newydd cyn i'r cyfnod cyhoeddusrwydd ddod i ben.**<br><br>**12.2 DEM/2019/14 - Cais i benderfynu a oes angen caniatâd ymlaen llaw ar gyfer dymchwel yr ysgol bresennol yn Ysgol Gynradd Llaingoch, Ffordd Ynys Lawd, Caergybi**<br><br>**Penderfynwyd bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi caniatâd ymlaen llaw yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog gyda'r amodau sydd wedi eu cynnwys ynddo ac ar yr amod hefyd bod y manylion sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol ar gyfer Gwaith Dymchwel (DEMP) a'r Cynllun Rheoli Traffig yn ystod y Gwaith Dymchwel (DTEMP) yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.**<br><br>**12.3 FPL/2019/207 - Cais llawn ar gyfer codi 15 o anheddau yn cynnwys 8 annedd fforddiadwy ynghyd â chreu mynedfa newydd a datblygiadau cysylltiedig ar safle'r hen Marquis Inn, Rhosybol**<br><br>**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y swyddog gyda'r amodau sydd wedi eu cynnwys ynddo a'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod ac yn amodol hefyd ar gytundeb Adran 106 mewn perthynas â chyfraniad i'r isadeiledd, tai fforddiadwy a'r gofynion o ran llecynnau agored.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu trafod yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |